

Eisteddfod Penrhyn-coch 2018 Cystadleuaeth Rhif 2: Telyneg - Y Daith

Daeth deuddeg telyneg i law, ac mae safon y gystadleuaeth yn uchel drwyddi draw. Mae rhywbeth i'w ganmol ym mhob telyneg. Telynegion mewn mydr ac odl oedd fwyaf cyffredin, ac er bod gafael dda gan y mwyafrif ohonynt ar rythm ac ati, eu prif wendid yw diffyg syniad neu fynegiant gwreiddiol ac mae sŵn braidd yn hen-ffasiwn ar ambell un (nid bod hynny yn ei hun yn beth drwg bob tro wrth gwrs!).

Dyna, mae'n debyg, yw'r gwahaniaeth rhwng y ddau ddsbarth yr wyf wedi rhannu'r telynegion iddynt. Yn yr ail ddsbarth mae PADRIG, MENNA, LLYSFAEN, BETI, SIONED, HAFAN a GLAN TEIFI. Mae tŷn hiraethus i nifer o'r telynegion yma, er enghraifft gwaith HAFAN, sydd yn gresynu am ddiboblogi cefn gwlad. Mae penillion da iawn yma - er enghraifft 'Ni welaf neb yn sefyll / I'm cyfarch ger y glwyd / Heblaw am yr hen farcud / Sydd yno'n chwilio bwyd' ond mae chwithdod a diffyg gofal am ramadeg mewn penillion a llinellau eraill, er enghraifft 'Mae'r hedyn bach a blannwyd / Ers llawer canrif maith, / Yn awr yn prysur farw / Gan adael tristwch baith.

Cerdd am lanc ifanc yn mynd i ryfel sydd gan PADRIG ac mae ailadrodd amrywiad ar 'Llanc ifanc yw Roger' ar ddechrau pob cwpled yn effeithiol dros ben. Nid yw pob darn mor effeithiol - er enghraifft 'llanc ifanc a'i gorffyn yn pereiddio'r tir.'

Tebyg yw cerdd GLAN TEIFI sydd yn adrodd hanes wyres, efallai, sydd wedi symud i'r Alban ac yna yn marw'n ifanc. Eto, anwastad yw'r delyneg gyda rhai rhannau da ('Yn berl yng nghoron Iesu / rwynt nawr tu hwnt i'r llen') a rhannau eraill llai effeithiol ('Heb wybod fod taith bywyd / Mor fer a brau ei hyd).

Gresynu am golli rheilffordd dyffryn Aeron mae SIONED. Mae ambell linell gref yma a thraw - 'O mor lleddf yw cri'r dylluan / Gweld y mae dy golli di' - ond diffyg gofal gyda delweddu a chywirdeb sydd yma. Er enghraifft, lletchwith ac anodd dilyn yw 'Cri y gwynt mewn angerdd ochan, / A'i fraich hiraeth sydd yn drwm.'

Mordaith o ryw fath sydd gan MENNA, mordaith y Mimosa o bosib, er nad yw'n nodi hynny. Does dim byd newydd yn y stori gan MENNA, er bod y mesur yn daclus.

Anghysondeb yw prif wendid cerdd LLYSFAEN am Epynt. Mae'r pennill yma yn dda: 'Pob llusern a ddiffoddwyd / Yn oerni'r tyddyn llwm, / Ond olion traed ni ddadfail / Ar hyd holl lwybrau'r cwm.' ond mae'r mynegiant yn hwn yn afrwydd: 'Anadliad o anobaith / A ddaeth i'r lleithder dwyn, / Byddinoedd yno'n chwyrnu / Mewn cur a dolur lwyn.'

Diffyg gwreiddioldeb mynegiant sydd yng ngherdd BETI er bod mydr y mesur yn canu'n braf ac er bod y ddau bennill yn cyferbynnu yn daclus ac yn effeithiol - un yn myfyrio ar arafwch braf, sicr y dyddiau gynt a brys ansicr heddiw.

Mae ELSI, EFAS, GLAINIS, COEDPOETH a PLENTYN CYNTAF yn y dosbarth cyntaf. Mae syniad da gan EFAS, sef darlunio Syria heddiw a gwneud cysylltiad gyda Herod 'Ar lwyfan yn hybu / Difa a threisio.' Ceir darlun trawiadol: 'Mewn lliw fe welwn / y baban di-nam / a'r tanciau'n

eu suo / ym mreichiau ei fam.' Teimplais y gallai'r ddelwedd fod wedi cael ei datblygu ychydig - nid yw'r ergyd yn gwbl effeithiol fel y mae.

Mae telyneg ELSI yn effeithiol iawn - dau bennill cyferbyniol yn darlunio taith i'r ysgol - 'a gwadnau fy esgidiau / yn chwalu perlau'r gwllith'. Mae'r ail bennill wedyn yn darlunio heddiw - 'Bellach nid oes anifail / yn pori ar y rhos'...'A dim ond haul y bore / Sy'n chwalu perlau'r gwllith.' Crefftus iawn - dyma gerdd sydd yn swnio'n hiraethus ond sydd wedi ei mynegi'n ddiwyll.

Mae sŵn hen-ffasiwn iawn i gerdd GLAINIS am daith yr afon fach tua'r môr, ond mae'r mesur yn canu yn gwbl hyfryd. Dyma delyneg draddodiadol hyfryd am fyd natur: 'Lithro'n drwsgwl dros y cerrig / Troelli'n sydyn dan y ddôl; / Golchi'r garreg las yn llyfn / Dawnsio'i ffwrdd heb edrych nôl.' Nid yw'r mynegiant wastad yn taro deuddeg ac mae ôl straen fan hyn a fan draw er enghraifft ar ddiwedd pennill 3 a dechrau pennill 4.

Gan COEDPOETH y cafwyd yr unig delyneg yn y wers rydd ac mae'n llwyddiannus dros ben. Cerdd am drychineb Gresffordd yw hon ac mae'r delweddau yn bwerus a thrawiadol. Mae'n dechrau gyda'r bardd yn deffro i swm y gweithwyr yn cerdded i'r gwaith yn y bore bach. 'Mae dolef yr hwter cynnar / yn galw'r tanwyr, yr halwyr a / rebelwyr y bonc / i geibio'r fywoliaeth frintach / o dafellau'r wythïen ddu.' Ond daw'r ddamwain ac cwmwl y mwg yn 'cloi'r ysgyfaint' ac y gadael 'Deucant o wragedd gweddwon, / gwehelyth y creithiau glas.' Mae dawn amlwg gan COEDPOETH.

Ond PLENTYN CYNTAF sy'n mynd â hi am gerdd syml ond pwerus iawn sydd yn cadw ei hergyd hyd at y pennill olaf. Mae'r cyferbyniad rhwng y rhiant a'r plentyn yn y pennill cyntaf yn wych ac mae natur anochel cyrraedd pen y daith yn cael ei ddarlunio a'i adeiladu o bennill i bennill yn effeithiol. Cerdd i dynnu deigryn wrth unrhyw riant!